**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/JMSS/00058/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

05 Mawrth 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch deiseb P-06-1404 a'r galw am fwy o eglurder a hawliau i bobl ar daliadau uniongyrchol neu Grant Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) i fyw'n annibynnol. Rwyf yn croesawu'r cyfle i nodi safbwyntiau Llywodraeth Cymru wrth ichi ystyried eich ymateb ac rwyf yn anfon copi o'm hymateb i dîm clercio'r Pwyllgor Deisebau yn unol â'ch cais.

Rwyf yn cefnogi hawl pobl anabl i fyw bywydau cyflawn ac i reoli sut y cânt eu cefnogi lle bynnag y bo modd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig yn nodi dull gweithredu clir a chyson y mae rhaid i awdurdodau lleol ei ddilyn i gynnwys unigolion yn ystyrlon wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion.

Daeth WILG i ben fel cyllid grant yn 2018-19. Trosglwyddwyd yr holl gyllid (£27 miliwn) i'r Grant Cynnal Refeniw, gan ganiatáu i awdurdodau lleol barhau i ddarparu cymorth i dderbynwyr, naill ai drwy gynnal taliadau i unigolion yn 2018-19 cyn iddynt gael eu trosglwyddo i gymorth o dan ddarpariaeth gofal cymdeithasol awdurdod, neu drwy ddarparu cymorth o dan drefniadau lle mae cymorth wedi'i drosglwyddo. O 2019-20 ymlaen, roedd yr holl gymorth i dderbynwyr i'w ddarparu drwy ddarpariaeth gofal cymdeithasol awdurdod lleol.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu llawer o bobl anabl i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'n hanfodol bod mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'u manteision a bod mynediad a darpariaeth yn gyson ledled Cymru. Rydym wedi cysylltu ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Awdurdodau Lleol i ymgorffori'r argymhellion yn adroddiad *Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion* 2022 mewn Canllawiau Statudol. Rydym hefyd yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad a thystiolaeth ehangach i ddeall y gweithlu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynorthwywyr personol yn well ac i ddatblygu set gydgysylltiedig o gamau gweithredu i sicrhau hawliau ac i wella cysondeb profiad a chymorth i dderbynwyr taliadau uniongyrchol a chynorthwywyr personol.

Mae ein Bil Gofal Cymdeithasol arfaethedig yn cynnwys mesur a fydd yn gwella'r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a Thaliadau Uniongyrchol. Bydd yn caniatáu i bobl reoli eu bywyd eu hunain a chysoni'r disgwyliadau â dyletswyddau sydd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Yn ehangach, rydym yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith a nodwyd gan ein Tasglu Hawliau Anabledd. Mae'n dod â phobl sydd â phrofiad bywyd, Arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol ynghyd. Mae gwaith y Tasglu yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, hawliau dynol a chydgynhyrchu.

Byddwn hefyd yn cyflwyno canllawiau newydd i'r Awdurdodau Lleol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hunanasesu eu perfformiad a'u darpariaeth yn erbyn wyth safon ansawdd. Mae hyn yn cynnwys dangos, gyda thystiolaeth, sut y maent yn hyrwyddo llais a rheolaeth unigolion sydd angen gofal a chymorth ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl. Bydd angen iddynt ddangos sut y mae barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael ei hadlewyrchu yn asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

Mae fy swyddogion yn gweithio gydag unigolion ar draws y sector i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni mewn modd amserol. Rwy'n disgwyl gweld cynnydd clir yn cael ei wneud arnynt yn ystod y flwyddyn hon.

Diolch ichi unwaith eto am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

cc: deisebau@senedd.cymru